**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**

**Disgrifiad Swydd a Manyleb Person**

**CEFNDIR**

Mae’r swydd hon yn cael ei ariannu gan Llwyddo’n Lleol 2050, Rhaglen Arfor. Gydag allfudo teuluoedd a phobl ifanc yn cael ei gydnabod fel un o’r prif resymau am ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd, nod Llwyddo’n Lleol 2050 yw darbwyllo pobl ifanc a theuluoedd ifanc sydd mewn peryg o adael neu sydd eisoes wedi ymadael bod modd cael dyfodol disglair, gyda swydd dda o fewn maes cyffrous, yn eu cymuned gynhenid.

PWY SY’N GYMWYS?

- Unigolion rhwng 18 a 35 oed
- Unigolion sydd yn byw yn ardal ARFOR (Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn) neu yn wreiddiol o ardal ARFOR ac yn bwriadu / eisiau symud yn ôl.
- Unigolion sydd yn gallu siarad Cymraeg neu sy’n gallu dangos ymrwymiad clir i ddysgu a defnyddio’r iaith.
- Unigolion sydd eisiau gweithio mewn meysydd diddorol ac amrywiol.
- Unigolion sydd eisoes mewn gwaith ond eisiau ymgeisio am swydd uwch o fewn y cwmni.

*Mae rhai ymrwymiadau yn ofynnol o’r unigolyn fydd yn derbyn y swydd hon. Mae’r rhain wedi cael eu nodi ar ddiwedd y disgrifiad swydd.

BETH MAE’R LLYFRGELL GENEDLAETHOL YN EI GYNNIG FEL CYFLOGWR?

- Lleoliad gwaith o fewn maes arloesol
- Cynnig cyfnod o waith i’r unigolyn a/neu profiadau arbennig dros gyfnod amhenodol
- Cynnig cyfleodd gwaith diddorol i’r unigolyn
- Cynnig sesiynnau mentora a hyfforddiant i’r unigolyn er mwyn iddyn nhw fuddio cymaint a phosib o’r bartneriaeth
- Creu cynllun hir-dymor sy’n dangos gwaddol ac effaith y gefnogaeth.
- Ymrwymiad llawn i gefnogi datblygiad proffesiynol / profiadau newydd yr aelod newydd o staff / yr unigolyn

## ADRAN 1: MANYLION SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Aelodaeth Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau |
| **Adran:** | Codi Arian a Chynhyrchu Incwm |
| **Gradd:** | Band 3 |
| **Cyflog:** | £27,190 - £31,385 (pro rata) |
| **Cytundeb:** | Cyfnod penodol – 6 mis rhan amser (3 diwrnod yr wythnos) |
| **Yn adrodd i:** | Pennaeth Codi Arian |

**Pwrpas cyffredinol y rôl:**

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a threfnus i ymuno â'n Tîm Codi Arian fel Swyddog Aelodaeth ar gyfer Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn elusen ar wahan i'r Llyfrgell Genedlaethol, a'i amcanion yw hyrwyddo addysg, gwybodaeth gyhoeddus a dealltwriaeth trwy hybu, cefnogi, helpu, a gwella Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy weithgareddau grwp o gyfeillion.

Bydd y Swyddog Aelodaeth yn chwarae rhan allweddol mewn rhaglen gorchwyl a gorffen trawsnewidiol ar gyfer y Cyfeillion. Bydd tasgau yn cynnwys cydlynu gwaith i foderneiddio prosesau a gweithdrefnau a chynorthwyo pwyllgor y Cyfeillion i fabwysiadu technolegau newydd. Prif bwrpas hyn yw effeithloni prosesau codi arian y Llyfrgell, cynnig profiad gwell i'n rhoddwyr, a'i gwneud yn haws i aelodau noddi a chyfrannu at waith y Llyfrgell.


Bydd y rôl yma yn rhan o gynllun ehangach i sicrhau cyllid a chynyddu incwm a all gefnogi gwaith Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ei blaenoriaethau a'i hymrwymiadau strategol, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Strategol 2021-2026: https://www.llyfrgell.cymru/fileadmin/docs_gwefan/new_structure/about_nlw/about_us/governance/corporate_documents/210824Cynllun_Strategol_CYM.pdf

## ADRAN 2: Y GYFARWYDDIAETH

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gyfrifol am gyflawni nifer o swyddogaethau strategol pwysig, megis cyfathrebu a phartneriaethau, ymgysylltu, adnabod a datblygu cynulleidfaoedd, gwirfoddoli, cyfranogi a dysgu, hyrwyddo a marchnata, arddangosfeydd, profiad

ymwelwyr, Casgliad y Werin Cymru, Codi Arian a Chynhyrchu Incwm. Mae'r holl swyddogaethau hyn yn elfennau allweddol a hanfodol o Gynllun Strategol y Llyfrgell ac yn ymwneud â meysydd sydd ymhlith prif flaenoriaethau'r Llyfrgell. Arweinir y Gyfarwyddiaeth gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau ac mae ganddi dri Phennaeth Adran sy'n adrodd iddi'n uniongyrchol.

## ADRAN 3: SIART SEFYDLIADOL




## ADRAN 4: DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

Gweithio ochr yn ochr â'r Pennaeth Codi Arian a Chadeirydd y Cyfeillion i ddatblygu cynllun gweithredol er mwyn bodloni nod y rhaglen gorchwyl a gorffen i foderneiddio a gwella prosesau yn ymwneud a'r Cyfeillion.

Cynnal cofnodion aelodaeth cywir a chyfredol yn ein cronfa ddata, yn unol â GDPR, gan gynnwys prosesu ceisiadau newydd, adnewyddu ac uwchraddio.

Datblygu perthynas â Phwyllgor ac Aelodau'r Cyfeillion. Cyfathrebu'n effeithiol ag aelodau trwy e-bost, ffôn, a phost, gan ymateb i ymholiadau'n effeithlon a darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.

Sicrhau bod profiad y rhoddwr yn gadarnhaol a datblygu ffyrdd newydd o gydnabod rhoddwyr am eu cefnogaeth.

Dadansoddi data aelodaeth a thueddiadau i nodi cyfleoedd ar gyfer twf ac ymgysylltu.

Cynorthwyo gyda mabwysiadu technolegau newydd ac opsiynau talu, i wella profiad rhoddwyr.

Moderneiddio prosesau gwaith y Cyfeillion, gan ddarparu profiad gwell i roddwyr.

Archwilio ffyrdd o fanteisio ar dechnolegau digidol newydd i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.

Darparu hyfforddiant i Bwyllgor y Cyfeillion a gwirfoddolwyr ar y systemau a thechnolegau newydd.

Trefnu digwyddiadau ar gyfer y Cyfeillion a mynychu digwyddiadau i ddenu aelodau newydd.

Cyfrannu at hyrwyddo brand y Llyfrgell i atgyfnerthu ei statws elusennol trwy destun, graffeg a fideos ar wefan y Llyfrgell, ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn yr adeilad.

Cynhyrchu deunydd hyrwyddo ac aelodaeth ar gyfer y Cyfeillion (digidol a phrint).

Cyfrannu at wella hygyrchedd, awyrgylch a chysylltiad emosiynol â'n casgliadau a hanes sefydliadol, er mwyn hwyluso gwaith y Cyfeillion a denu aelodau newydd.

Cydweithio gyda Gwasanaeth Gwirfoddoli’r Llyfrgell i recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer rolau gwirfoddol gyda’r Cyfeillion.

Cyfrannu at waith yr Adran Codi Arian, i gynyddu incwm refeniw a chyfalaf i LlGC, gan gynhyrchu ffynhonnell incwm cynaliadwy.

Darparu gwybodaeth fanwl ac amserol am ei maes gwaith mewn cyfarfodydd mewnol.

Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Codi Arian a chydweithwyr ar draws y sefydliad i adnabod cyfleoedd.

Gwneud argymhellion i’r Pennaeth Codi Arian ynghylch datblygiadau addas y dylid eu hystyried.

Gweinyddu ffeiliau electronig o'r holl weithgareddau.

Cydymffurfio â Chodau Ymarfer Rheoleiddwyr Codi Arian a GDPR.

*Darperir y Disgrifiad Swydd hwn i roi amlinelliad bras i ddeiliaid y swydd o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon. Mae’n bosibl y bydd y Llyfrgell am i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill nad ydynt o reidrwydd wedi’u cynnwys ar y Disgrifiad Swydd ond sy’n gymesur â graddfa’r swydd. Gellir diwygio’r Disgrifiad Swydd o bryd i'w gilydd o fewn y cwmpas a’r lefel cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd hon.*

## ADRAN 5: CYFRIFOLDEB

**Cyfrifoldeb dros bobl:** Nid oes gan y swydd unrhyw gyfrifoldeb uniongyrchol am staff ond bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'n agos gydag aelodau eraill o'r tîm.

**Cyfrifoldeb dros reoli cyllideb:**
Nid oes gan y swydd unrhyw gyfrifoldeb uniongyrchol am gyllideb ond mae ganddi gyfrifoldeb uniongyrchol i gyrraedd targedau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw yn flynyddol.

## ADRAN 6: CYSYLLTIADAU AG ERAILL

| **Cysylltiadau Mewnol** | **Natur y Cyswllt** |
|---|---|
| Pob aelod o staff, yn enwedig y rhai y mae eu cylch gorchwyl yn ymwneud â cysylltiadau allanol neu stiwardiaeth | Cyfarfodydd wyneb yn wyneb<br>Cyfathrebu ysgrifenedig drwy e-bost ac adroddiadau |
| **Cysylltiadau Allanol** | **Natur y Cyswllt** |
| Pwyllgor Y Cyfeillion<br>Aelodau'r Cyfeillion<br>Darpar Aelodau<br>Gwirfoddolwyr | Cyfarfodydd wyneb yn wyneb<br>Gohebiaeth ysgrifenedig<br>Mynychu digwyddiadau<br>Recriwtio a darparu hyfforddiant |

## ADRAN 7: DATRYS PROBLEMAU

Bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd adnabod problemau a heriau sy'n wynebu gwaith beunyddiol y rôl.

## ADRAN 8: GWNEUD PENDERFYNIADAU

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyfrannu'n gyffredinol at gynlluniau gweithredol yr Ardan Codi Arian.

## ADRAN 9: MANYLEB PERSON

| | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Cymhwyster neu brofiad cyfatebol o weithio ym maes codi arian a/neu farchnata, cyfathrebu, trefnu digwyddiadau, neu cydlynu prosiectau | |
| **Profiad** | Profiad o ysgrifennu testun, gohebiaeth neu adroddiadau cyhoeddus<br><br>Profiad o ddatblygu cysylltiadau allanol a mewnol<br><br>Profiad o gynllunio gweithgareddau a threfnu digwyddiadau<br><br>Profiad o weithio gyda thechnolegau digidol amgen<br><br>Profiad o gynllunio ymgyrchoedd gan weithio gyda chyflenwyr allanol i ddatblygu deunydd hyrwyddo | Profiad o ddefnyddio system CRM<br><br>Profiad o brosiectau diwylliannol a threftadaeth a'r dirwedd y maent yn gweithredu ynddi |
| **Gwybodaeth** | Gwybodaeth gyffredinol am gasgliadau a gwaith y Llyfrgell Genedlaethol | Gwybodaeth am sector codi arian |
| **Sgiliau** | Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br><br>Gallu meithrin perthynas gref gyda phobl<br><br>Sgiliau rheoli amser ardderchog, a'r gallu a'r ymroddiad i gwblhau gwaith i derfynau amser tynn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Y gallu i ymchwilio a dod o hyd i wybodaeth o'r rhyngrwyd, deunydd cyfeirio a chan gydweithwyr.<br><br>Sgiliau gweinyddu rhagorol.<br><br>Defnyddio amrywiaeth o becynnau meddalwedd yn hyderus gan gynnwys Word, PowerPoint ac Excel i gynhyrchu briffiau, adroddiadau a chyflwyniadau<br><br>Y gallu i gymhathu gwybodaeth yn gyflym.<br><br>Sgiliau digidol rhagorol er mwyn gallu gweithredu'r defnydd o dechnolegau digidol newydd i hwyluso codi arian | |

## ADRAN 10: TELERAU RHAGLEN ARFOR: LLWYDDO'N LLEOL 2050

*Gan fod y swydd hon yn cael ei ariannu gan Rhaglen Arfor: Llwyddo'n Lleol 2050, bydd angen i'r unigolyn sy'n derbyn y swydd hon ymrwymo i'r gofynion canlynol:

- Ymrwymo i fynychu gweithgareddau cymdeithasol a threfnwyd. Bydd yn ofynnol i unigolion i gymryd cyfrifoldeb dros drefnu ambell weithagredd yn ei hardal (e.e taith gerdded, noson gomedi, cwis). Bydd Swyddog Prosiect Llwyddo'n Lleol yr ardal yn medru cynorthwo gyda'r elfen yma.
- Profi'r cyfle a/neu cyflawni'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a neilltuwyd gan y cyflogwr i safon uchel.
- Mae yn ofynnol i unigolion sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r prosiect i ymrwymo i gymryd rhan yng ngwerthusiad y prosiect.
- Ymrwymo i fod yn llysgennad i Llwyddo'n Lleol 2050 drwy fod yn rhan o glipiau fideo, podlediadau, astudiaethau achos ayyb.
- Cyfrannu at ymgyrch ddigidol Llwyddo'n Lleol drwy rannu eich profiadau ar gamera tra byddwch ar y lleoliad gwaith. Bydd y gwaith cyfweld a ffilmio yn cael ei wneud gan griw Cyfathrebu Llwyddo'n Lleol. Mi fydd y cynnwys yn cael ei rannu ar blatfformau digidol Llwyddo'n Lleol:
    - Instagram - @llwyddonlleol
    - Facebook - Llwyddo'n Lleol 2050
    - LinkedIn - Arfor - Llwyddo'n Lleol
    - Twitter - @LleolN